**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 3 Rhagfyr 2014**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Joanna Price | |
| Huw Davies | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Chris Hale | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Carol Harris | Office of the Chief Veterinary Officer (OCVO) |
| Janet Perry | Office of the Chief Veterinary Officer (OCVO) |

**<u>Eitem Agenda 1 – Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i drydydd cyfarfod y Grŵp.

**<u>Eitem Agenda 2 – Diweddariad gan CVO Cymru ar Ffliw'r Adar</u>**

2. Eglurodd y Cadeirydd fod y Grŵp yn ymwybodol o'r achos o ffliw'r adar oedd wedi'i gadarnhau yn Lloegr. Rhoddodd Christianne ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol, gan gynnwys camau a gymerwyd ynghylch y Ffair Aeaf ddiweddar.

***Pwynt Gweithredu 1 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu manylion am y mesurau a roddwyd yn eu lle ynghylch y Ffair Aeaf.***

**<u>Eitem Agenda 3 – Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o Gyfarfod 11 Mehefin</u>**

3. Eglurodd y Cadeirydd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi e-bostio cofnodion a phwyntiau gweithredu'r cyfarfod diwethaf at Aelodau'r Grŵp mis diwethaf. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4. Bu'r Grŵp yn trafod materion cyfathrebu a bod angen codi ymwybyddiaeth. Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi gwneud nifer o gyfweliadau radio a chyda'r wasg. Yn ogystal, roedd erthyglau wedi eu cyhoeddi yn y cylchgrawn GWLAD ac ar-lein. Awgrymwyd bod angen datblygu cynllun cyfathrebu mwy ffurfiol. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys trydar yn rheolaidd, hysbysiadau yn y wasg ar faterion allweddol, digwyddiadau etc.

***Pwynt Gweithredu 2 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â chydweithwyr Cyfathrebu i ddatblygu cynllun cyfathrebu ffurfiol ar gyfer y Grŵp.***

5. Lleisiodd Huw beth pryder na fyddai'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn gallu mynychu cyfarfod tan fis Mehefin.

6. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

**Eitem Agenda 4 – Diweddariad gan y Cadeirydd**

*Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (RDP Cymru)*

7. Eglurodd y Cadeirydd ei fod ef a Chris wedi mynychu gweithdy diwydiant ar RDP Cymru ar 1 Hydref a'i fod hefyd wedi cadeirio gweithdy diwydiant arall ar 24 Hydref. Eglurodd Chris fod y gweithdai wedi bod yn ddefnyddiol a'i bod yn amlwg bod y diwydiant yn awyddus iawn i gydweithio ar ddatblygu cynigion a phrosiectau mewn ffordd strategol.

8. Eglurodd Chris fod llythyr gan y cynrychiolwyr yn y gweithdy hwn erbyn hyn wedi'i anfon at y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd.

9. Soniodd hefyd fod Carol wedi mynychu gweithdy ar y Cynllun Datblygu Gwledig gyda'r Dirprwy Weinidog ar 9 Hydref a bod yr holl sleidiau a'r adborth wedi eu cylchredeg i'r Grŵp er gwybodaeth ac am sylwadau.

***Pwynt Gweithredu 3 – Y Cadeirydd i anfon y llythyr at y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ymlaen i'r Ysgrifenyddiaeth i'w gylchredeg.***

10. Gofynnodd Ifan a oedd cynigion fel cyllid cyfalaf ar gyfer cyfleusterau trin da byw dan ystyriaeth o hyd. Eglurodd Chris nad oedd dim wedi'i gytuno eto a bod yr RDP Cymru a gyflwynwyd i'r Comisiwn wedi bod ar lefel uchel iawn heb unrhyw fanylion am y cynllun wedi'u cynnwys. Eglurodd Ifan fod iechyd a diogelwch yn dod yn fater cynyddol bwysig ar ffermydd erbyn hyn. Eglurodd Moss ei bod yn bwysig i hyn gael ei gysylltu i fioddiogelwch.

11. Dywedodd Christianne ei bod yn wych y gofynnwyd i'r Cadeirydd arwain y gweithdai a'i bod yn hollbwysig bod y Grŵp yn parhau i hybu iechyd a lles anifeiliaid drwy RDP Cymru. Eglurodd hefyd ba mor bwysig oedd yr Adolygiad o Gyswllt Ffermio a'r argymhellion a wnaed.

*Strategaeth Amaethyddol*

12. Gofynnodd y Cadeirydd i Carol ddarparu diweddariad ar ddatblygiad y Strategaeth Amaethyddol. Eglurodd Carol fod y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi cyfeirio at ddatblygiad y Strategaeth Amaethyddol yn ei haraith ym mrecwast HCC yn Sioe Frenhinol Cymru. Bydd y Strategaeth yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y diwydiant amaeth a bydd angen i Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru fwydo mewn i hon. Bydd gwaith ar y Strategaeth yn symud ymlaen yn y flwyddyn newydd a bydd yn bwysig i'r Grŵp fod yn rhan o'i datblygiad.

**Cyfarfod y Pedwar Cadeirydd**

13. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod y Pedwar Cadeirydd ym Melffast ar 10 Tachwedd ac eglurodd mai pwrpas y cyfarfod chwe misol hyn yw cwrdd â chyd-Gadeiryddion yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i drafod blaenoriaethau allweddol a materion trawsbynciol. Ffocws y cyfarfod oedd TB mewn gwartheg a dolur rhydd feirysol mewn gwartheg. Roedd Michael Seals, Cadeirydd Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr, wedi cytuno i gadarnhau'r sefyllfa ddiweddaraf ar yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer Prydain.

*Cyfarfod y Cadeirydd â'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd*

14. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod defnyddiol iawn â'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar 7 Hydref lle oedd wedi trafod BVD, y Clafr, TB, Gwaharddiad Symud 6 Diwrnod a chysylltiadau i'r polisi bwyd.

15. Eglurodd ei fod wedi ei gwahodd i'r cyfarfod hwn ond, yn anffodus, na allai fod yma. Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth y bydd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn awr yn mynychu'r cyfarfod sydd i'w gynnal ym mis Mehefin sy'n cysylltu i gyhoeddiad arfaethedig Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ar gyfer 2015-16. Eglurodd hefyd y cytunwyd y byddai'n parhau i gwrdd â hi pob chwe mis, neu'n amlach os oedd angen.

*Grwpiau Iechyd a Lles Gwartheg a Defaid (CHAWG a SHAWG)*

16. Eglurodd y Cadeirydd ei fod ef, ynghyd â Christianne a Chris, wedi cwrdd â Tim Brigstock a Peter Baber, cadeiryddion CHAWG am y naill a SHAWG am y llall, ar 9 Tachwedd. Eglurodd i hwn fod yn gyfarfod defnyddiol iawn. Eglurodd hefyd fod Huw a Dai wedi mynychu cyfarfodydd CHAWG a SHAWG ym mis Hydref a bod nodiadau o'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu cylchredeg.

17. Y prif bwnc trafod oedd ariannu'r cymorth Ysgrifenyddol ar gyfer CHAWG a SHAWG. Eglurodd y Cadeirydd fod Tim Brigstock wedi ysgrifennu at HCC yn y cyswllt hwn.

18. Ar ôl trafod, cytunwyd y byddai cynrychiolydd o'r Grŵp Fframwaith yn parhau i fynychu'r cyfarfodydd SHAWG a CHAWG.

19. Holodd Jo a fyddai'n bosibl rhoi map at ei gilydd yn dangos sut oedd y Grŵp yn cysylltu i grwpiau eraill fel CHAWG a SHAWG,

***Pwynt Gweithredu 4 > Aelodau'r Grŵp i ystyried cysylltiadau gyda sefydliadau eraill o fewn a'r tu allan i Gymru a'u hanfon i'r Ysgrifenyddiaeth. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn creu diagram ar sail hyn.***

*Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr*

20. Eglurodd y Cadeirydd y bydd ef a Chris yn mynychu cyfarfod nesaf Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr ar 9 Rhagfyr.

**Eitem Agenda 5 – Diweddariad gan Aelodau'r Grŵp**

21. **Lles** – Eglurodd Ifan ei fod wedi cael trafodaethau â'r Pennaeth Polisi Lles yn Llywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau allweddol o hyn ymlaen, gan gynnwys deddfwriaeth, diweddaru Codau Ymarfer, tocio cynffonnau etc. Un o'r prif ofynion yw sefydlu strwythur o bartneriaid allweddol i ystyried blaenoriaethau yn y cyswllt hwn ac i symud gwaith yn ei flaen lle bo hynny'n briodol. Eglurodd Ifan fod hyn wedi'i gysylltu'n agos i'r gwaith y mae Jo'n ystyried ei wneud ar geffylau. Rhoddodd Jo gyflwyniad byr ar strwythur posibl. Eglurodd ei bod wedi cael trafodaeth â'r arweinydd polisi ar geffylau yn Llywodraeth Cymru a chyda phartneriaid allweddol eraill. Eglurodd Carol fod y dull o weithredu'n cyd-fynd yn dda â'r egwyddorion a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Cytunodd Jo ac Ifan i weithio gyda'i gilydd ac i gynnal cyswllt â'r Ysgrifenyddiaeth er mwyn dechrau gweithio yn y maes hwn yn y flwyddyn newydd ac i ddiweddaru'r cyfarfod eto ym mis Mawrth.

***Pwynt Gweithredu 5 - Jo ac Ifan i arwain ar les ceffylau ac anifeiliaid anwes ac i gynnal cyswllt â'r Ysgrifenyddiaeth gyda golwg ar ddechrau gweithio yn y flwyddyn newydd. Rhoddir diweddariad ffurfiol yng nghyfarfod y Grŵp ym mis Mawrth.***

22. **Rheoli codenni llyngyr rhuban mewn cŵn** - Eglurodd y Cadeirydd fod y Grŵp yn ddiweddar wedi cymeradwyo'r fanyleb a baratowyd gan Arjen Brouwer i ychwanegu gwerth ac i wella Prosiect Gwell Effeithiolrwydd gan Lywodraeth Cymru sy'n ymchwilio i'r cysylltiad parasitolegol ac economaidd rhwng cŵn (ac anifeiliaid cigysol eraill), effeithiolrwydd cynhyrchu defaid ac achosion lle gwrthodir anifeiliaid gan ladd-dai. Yna gofynnodd i'r Cadeirydd i Huw Davies roi diweddariad ar y Treial C Ovis. Eglurodd Huw fod cynnydd rhagorol yn cael ei wneud, gyda 300 o ymatebion wedi eu derbyn i'r holiadur. Eglurodd y dylai 90% o'r prosiect fod wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth, gan obeithio cwblhau'r prosiect erbyn Mehefin. Cytunodd i roi diweddariad ar y prosiect i'r cyfarfod nesaf.

***Pwynt Gweithredu 6 – Huw i roi diweddariad ar y Treial C Ovis i'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.***

23. **Ymwrthedd i gyffuriau** - Eglurodd Ifan ei fod wedi mynychu'r Uwch-gynhadledd ar Ymwrthedd i Gyffuriau gan DEFRA ar 18 Tachwedd. Cytunodd y Grŵp y byddai hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Cytunwyd y gallai'r Grŵp chwarae rôl allweddol mewn codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn yng Nghymru. Awgrymwyd nifer o opsiynau, gan gynnwys cyfathrebu â milfeddygon a cheidwaid da byw, bwydo mewn i Gyswllt Ffermio, ac ymgyrch bwrpasol i godi ymwybyddiaeth. Cytunwyd mai erthygl yn GWLAD fyddai'r cam cyntaf efallai.

***Pwynt Gweithredu 7 > Aelodau'r Grŵp i anfon pwyntiau gweithredu posibl i'r Ysgrifenyddiaeth.***

***Pwynt Gweithredu 8 > Ifan a Huw i weithio gyda'i gilydd i symud ymlaen ar hyn drwy ddechrau gydag erthygl yn GWLAD yn y flwyddyn newydd.***

24. **Y bwriad i ddatblygu unedau cwarantîn yn lle'r gwaharddiad ar symud am chwe diwrnod** – Eglurodd Moss y cynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Cynghori'r Diwydiant Da Byw a chyfarfod gyda Llywodraeth Cymru. Mae nifer o opsiynau ar y bwrdd, i gyd gyda gwahanol ofynion, yn enwedig o ran TG ac adolygu rhifau CPH. Cytunodd y Grŵp fod hwn yn fater cymhleth ac y byddent yn croesawu diweddariad yn eu cyfarfod nesaf.

***Pwynt Gweithredu 9 > Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu bod diweddariad ar yr Adolygiad CPH yn cael ei ychwanegu at agenda cyfarfod mis Mawrth.***

25. **Diweddariad ar Gynaliadwyedd yn y Sector Bwyd** – Mynychodd Moss a Chris y cyfarfod Cynaliadwyedd mewn Bwyd ym mis Tachwedd. Roedd yn gyfarfod defnyddiol ond wedi canolbwyntio'n drwm ar brosiectau penodol. Eglurodd Carol, yn dilyn trafod gyda chydweithwyr polisi bwyd, fod diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Bwyd i'w roi i'r cyfarfod nesaf.

***Pwynt Gweithredu 10 > Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu bod diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Bwyd yn cael ei roi i'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.***

## <u>Eitem Agenda 6 – Trafodaeth ar BVD</u>

26. Eglurodd y Cadeirydd fod John Griffiths a Neil Paton o'r Is-Grŵp BVD, yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp, wedi cyflwyno sail eu hadroddiad ac argymhellion ar ddileu BVD yng Nghymru. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd y Cadeirydd yn ôl i'r Is-Grŵp i ddiolch iddynt am eu gwaith ac yn nodi'r camau allweddol y byddai'r Grŵp yn hoffi iddynt eu hystyried er mwyn symud ymlaen. Eglurodd ei fod hefyd wedi mynychu cyfarfod is-grŵp lle oedd trafodaeth wedi'i chynnal ynghylch lansiad posibl yn y Gwanwyn.

27. Bu'r Grŵp yn ystyried y papur sefyllfa ar BVD gan fynegi eu siom nad oedd cynnydd pellach wedi'i wneud. Roedd y Grŵp yn arbennig o bryderus ynghylch yr amserlen a'r gost a chytunwyd ei bod yn greiddiol eu bod yn cael gweld amserlen o'r gweithredu a'r gost arfaethedig ar gyfer hyn.

28. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr is-grŵp BVD yn gofyn am ddiweddariad brys ar gynnydd, adborth ar y camau gweithredu fel ag yn y llythyr blaenorol, ac amserlen fanwl ynghyd ag amcangostau.

***Pwynt Gweithredu 11 > Y Cadeirydd i ysgrifennu i'r is-grŵp BVD yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd, amserlen a chostau.***

**Eitem Agenda 7 – Trafodaeth ar y Clafr**

29. Bu'r Grŵp yn trafod yr adroddiad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Clafr ar ddileu'r Clafr yng Nghymru. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Clafr yn gadael. Cytunwyd y byddai Moss ac Ifan yn ail-ymgynnull y Grŵp i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad.

***Pwynt Gweithredu 12 > Ifan a Moss i ail-ymgynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Clafr.***

**Eitem Agenda 8 – Gweledigaeth Bioddiogelwch i'r Dyfodol**

30. Rhoddodd Christianne gyflwyniad ar fioddiogelwch (Atodiad 1) yn tynnu sylw at y ffaith bod angen protocol pwrpasol i bob fferm neu ddaliad da byw ac yn gwbl integredig mewn cynllun iechyd. Gofynnodd i'r Grŵp ystyried haeddiannau cynnal ymgyrch bioddiogelwch a sut y gellid symud ymlaen ar hyn. Roedd yr opsiynau'n cynnwys cael bioddiogelwch fel thema yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf, gwefan well, astudiaethau achos, cysylltiadau â Lantra a Chyswllt Ffermio.

31. Cytunodd y Grŵp y byddai hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig.

***Pwynt Gweithredu 13 > Aelodau'r Grŵp i ystyried ymgyrch bioddiogelwch ac i anfon eu barn i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn diwedd Ionawr.***

**Eitem Agenda 9 – Trafodaeth am Gynllun Gweithredu 2015/16 a'r Sylfaen Dystiolaeth**

32. Eglurodd y Cadeirydd fod y cylch cynllunio ac adrodd blynyddol ar gyfer Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru wedi'i osod allan ar dudalen 15 yn y ddogfen gyhoeddedig.

33. Eglurodd y Cadeirydd y bydd Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru'n cyhoeddi cynllun gweithredu pob blwyddyn ar gyfer y cyfnod o Ebrill tan fis Mawrth. Dylai'r cynllun gael ei gyhoeddi ym Mai / Mehefin.

34. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y papur ar y cynnig amlinellol i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu am 2015-16. Eglurodd ei fod eisoes wedi cwrdd â Christianne i drafod y cynnig ac yn gefnogol o'r dull. Eglurodd Carol fod y dull oedd yn cael ei ddilyn gan Jo ac Ifan ar anifeiliaid anwes yn cyd-fynd yn dda â'r cynnig. Cytunwyd fod angen i Aelodau eraill gyflwyno eu barn am y dull i'w ddilyn ar gyfer defaid a gwartheg bîff a llaeth. Cytunodd y Grŵp hefyd fod angen cael themâu trawsbynciol, yn enwedig bioddiogelwch ac ymwrthedd i gyffuriau.

***Pwynt Gweithredu 14 > Aelodau i anfon eu barn am y cynnig ar gyfer y cynllun gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth.***

***Pwynt Gweithredu 15 > Yr Ysgrifenyddiaeth i gydgysylltu'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu'r cynllun gweithredu.***

**Eitem Agenda 10 – Unrhyw Fusnes Arall**

35. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo Cynllun Dileu TB 2015 yn amodol.

36. Bydd Labordy Caerfyrddin yn gwneud profion Gama Interfferon, gyda hyfforddiant a dilysu i ddechrau'n fuan yn y Flwyddyn Newydd. *[oherwydd nad yw hwn wedi'i gyhoeddi eto, byddwn yn gadael hyn allan o'r cofnodion cyhoeddedig].*

37. Mae'r penderfyniad terfynol ar ddyfarnu contractau o dan Brosiect y Bartneriaeth Darparu Milfeddygon ar hyn o bryd yn nwylo Gweinidogion.

38. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp ar 3 Mawrth.

**GORFFEN**